



Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant Cryno

CYSUR 1/2019

Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd:

16 Gorffennaf 2024

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Cyfeirnod Adolygiad Cryno:
CYSUR 1 2019**

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

I'w cynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â nhw*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

Y cyd-destun cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR, Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru, ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,¹ a deddfwriaeth statudol cysylltiedig yn adran 139 o'r canllawiau yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016).² Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.³

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan adran 3.4 o'r canllawiau, sef fel a ganlyn:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf parhaus a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**
- nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn—
 - dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
 - y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol⁴ fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

² [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

³ [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015; Rheoliad 4 \(3\)](#)

⁴ Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn [adran 28 o Ddeddf Plant 2004](#) neu gorff a gaiff ei grybwyll yn [adran 175 o Ddeddf Addysg 2002](#).

Pwrpas yr adolygiad yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol, gan gynnwys amlygu arfer effeithiol. Roedd yn cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun asiantaethau sy'n gweithio gyda phlentyn a'i deulu.

Yr amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

Mae'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (yr Adolygiad o hyn ymlaen) yn ymwneud â babi a gafodd, yn 2018, anafiadau anesboniadwy a allai fod yn fygythiad i'w fywyd tra oedd yng ngofal, ac yn byw gyda, ei rieni biolegol a'i fam-gu ar ochr ei fam. Ar adeg y digwyddiad hwn, nid oedd y babi yn hŷn na phum wythnos oed.

Cafodd y babi ei gludo i'r ysbyty i ddechrau gyda phryderon mewn perthynas â pheswch ar y frest. Pan gafodd ei archwilio, canfuwyd bod ganddo anaf i'r pen na allai'r rhieni ei egluro. Nodwyd nifer o anafiadau sylweddol pellach, gan gynnwys nifer o doresgyrn. Barnwyd bod yr anafiadau hyn yn anesboniadwy ac nid oeddent yn gyson ag anafiadau damweiniol. Arestiwyd y rhieni biolegol a'r fam-gu ar ochr y fam wedi hynny fel troseddwy'r posibil, oherwydd bod y babi yn eu gofal dros gyfnod y digwyddiad.

Yn dilyn gweithrediadau troseddol priodol, plediodd y fam fiolegol yn euog o ymosodiad / camdriniaeth / esgeulustod / gadael plentyn er mwyn achosi dioddefaint/anaf dianghenraid a chafodd ei dedfrydu i ddeg mis o garchar wedi'i ohirio'n gyfan gwbl am bedwar mis ar hugain. Plediodd y tad biolegol yn euog o ymosodiad / camdriniaeth / esgeulustod / gadael plentyn er mwyn achosi dioddefaint/anaf dianghenraid a chafodd ddedfryd o dair blynedd o garchar. Ar hyn o bryd, mae ar brawf, dan drwydded tan 2025. Cyhuddwyd y fam-gu ar ochr y fam o ymosodiad / camdriniaeth / esgeulustod a gadael plentyn/person ifanc er mwyn achosi dioddefaint/anaf dianghenraid. Fodd bynnag, ni chynigiwyd unrhyw dystiolaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron, ac ni symudodd yr achos ymlaen i dreial troseddol.

Ar adeg ei fabwysiadu, roedd y babi yn gwneud cynnydd cadarnhaol ac wedi adennill ei olwg, ond roedd yn dal i gael trafferth cyrraedd ei gerrig milltir datblygiad. Roedd rhai o'r problemau a brofodd yn cynnwys oedi wrth sefyll, curo'i ben a thynnu ei wallt. Cafodd gefnogaeth wythnosol gan ffisiotherapydd, therapydd iaith a lleferydd, a therapydd chwarae. Roedd pryderon hefyd nad oedd yn defnyddio ei ochr chwith cymaint â'i ochr dde, a'i fod yn cael trafferth gyda bwyta. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr proffesiynol yn parhau i fod yn aneglur o ran beth fydd effaith yr anafiadau.

Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (2016)⁵ yn nodi, ar gyfer yr Adolygiad, y dylai'r Panel Adolygu Ymarfer Plant amlasiantaethol baratoi a chytuno ar linell amser o uchafswm o ddeuddeg mis cyn y digwyddiad a nodwyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys genogram fel ffordd o egluro perthnasoedd teuluol, a dadansoddiad asiantaethau sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad eu hasiantaethau priodol yn ystod y cyfnod amser a nodwyd, sy'n cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd cyn i'r Adolygiad ddechrau, neu'r hyn sy'n dal i fynd rhagddo.

Ar gyfer yr Adolygiad hwn, cytunwyd gan y Panel Adolygu Ymarfer Plant y dylai'r cyfnod amser y cwmpasir fod rhwng 19 Mawrth 2018 a 24 Rhagfyr 2018 yn gynwysedig. Mae'r llinell amser hon yn cynnwys y gwaith amlasiantaeth a wnaed yn unigol ac ar y cyd ac fe'i cyfunwyd fel un llinell amser amlasiantaeth integredig. Cyfeirir at un cofnod sydd ychydig y tu allan i'r cyfnod amser hwn;

⁵ [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

cytunwyd i hyn gael ei gynnwys gan y Panel gan ei fod yn rhoi eglurhad perthnasol a defnyddiol o broses bwysig sy'n cysylltu â'r sail resymegol dros yr Adolygiad.

Y sail resymegol dros gytuno i ddechrau'r cyfnod amser o 19 Mawrth 2018 oedd mai dyma'r dyddiad y cyflwynodd y fam gyntaf fel cyswllt beichiogrwydd cynnar o dan Ymddiriedolaeth y GIG (Surrey a Sussex).

Y sail resymegol dros gytuno i ddod â'r cyfnod amser i ben ar 24 Rhagfyr 2018 oedd mai dyma'r dyddiad y cafodd y babi ei ryddhau o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys i ofal maeth.

Trafodwyd y llinell amser, y cronolegau a'r dadansoddiad a gyflwynwyd gan yr holl asiantaethau yn fanwl yn ystod cyfarfodydd y Panel, ac yn y digwyddiad dysgu, a gwnaethant lywio'r themâu a'r dysgu a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn.

Cefndir teuluol

Y babi hwn yw plentyn cyntaf y ddau riant.

Roedd mam y babi yn 20 oed a'r tad yn 18 oed, yn y drefn honno, pan gafodd eu babi ei eni.

Magwyd y fam gan ei llystad yng Ngorllewin Sussex, a bu'n byw gydag ef yno tan fis Awst 2018. Cytunodd ei mam (y fam-gu ar ochr y fam i'r babi) a'i llystad y byddai hyn er budd pennaf pawb oherwydd rhai anawsterau roedd y fam-gu ar ochr y fam yn eu cael, gan gynnwys digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau, a oedd yn golygu bod angen iddi symud i Gymru.

Roedd y tad hefyd yn byw yng Ngorllewin Sussex nes iddo symud i Gymru gyda mam y babi ym mis Awst 2018. Mae gwybodaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex yn nodi bod y fam wedi'i chyflwyno fel unigolyn a oedd yn cael ei chefnogi gan ei phartner (y tad). Roeddent yn bwriadu byw gyda theulu'r fam ac roedd yn ymddangos eu bod yn cael cefnogaeth dda gan weithwyr proffesiynol.

Ni fagwyd y ddau riant gan eu priod rhieni biolegol, a phrofodd y ddau blentyndod cymhleth a thrawma. Profodd y fam adfyd yn ystod ei phlentyndod, gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol. Dangosodd hefyd rai ymddygiadau sy'n peri pryder, megis gorddosio a hunan-niweidio. Ni ddatgelwyd unrhyw gam-drin domestig gan y naill riant na'r llall.

Crynodeb o gysylltiad asiantaethau â'r teulu

Symudodd mam y babi, a oedd yn dri deg wythnos yn feichiog, a'r tad i Gymru o Orllewin Sussex oherwydd bod y fam eisiau bod gyda'i mam hi (y fam-gu ar ochr y fam) a chael ei babi yng Nghymru.

Ar ôl symud i Gymru, cofrestrodd y fam gyda'r gweithwyr meddygol proffesiynol angenrheidiol a chafodd gefnogaeth bydwaig leol.

Rhannwyd pryderon am y tro cyntaf gyda Gwasanaethau Plant awdurdod lleol Powys ar 9 Rhagfyr 2018 pan gysylltodd y pediatregydd ar ddyletswydd yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol â'r tîm dyletswydd argyfwng. Cafodd y babi ei gludo i'r ysbyty yn gynharach y prynhawn hwnnw gyda phryderon am beswch ar y frest. Pan gafodd ei archwilio, canfuwyd bod ganddo anaf i'r pen na allai'r rhieni ei egluro. Cafwyd trafodaeth strategaeth, a chychwynwyd ymchwiliad adran 47.

Y diwrnod canlynol, cynhaliwyd archwiliad meddygol diogelu cychwynnol lle barnwyd bod anafiadau a chanfyddiadau'r babi heb esboniad, ac nad oeddent yn gyson ag anafiadau damweiniol o ystyried oedran ifanc y babi, nad oedd yn gallu symud o gwmpas.⁶

Rhyddhawyd y babi o'r ysbyty i ofal maeth a chychwynnwyd achos llys.

Sefydlwyd bod yr wybodaeth a gasglwyd o fewn proses y llys yn adlewyrchu iechyd meddwl gwael y fam. Cyfeiriwyd y fam at y meddyg teulu a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, a rhagnodwyd meddyginiaeth iddi pan oedd y babi yn bythefnos a hanner oed.

Cwblhaodd y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol asesiad a oedd yn cynghori atgyfeiriad ar gyfer cwnsela, apwyntiad claf allanol seiciatrydd ymgynghorol, i barhau â'i meddyginiaeth, ac i fynd at y meddyg teulu eto os oedd angen.

Er ei fod y tu allan i gyfnod amser yr Adolygiad, dylid nodi, ar 16 Ionawr 2019, bod anhwylder sylfaenol wedi'i ddiystyru fel achos posibl ar gyfer anafiadau'r babi.

Am y cyfnod amser dan sylw, roedd y babi a/neu ei deulu yn cael eu cefnogi gan yr asiantaethau canlynol, ac yn ymwneud â nhw:

Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex: Bydwreigiaeth

Dechreuodd y cyswllt ar 19 Mawrth 2018 pan gofrestrodd y fam ar gyfer gofal mamolaeth. Mynychwyd chwe apwyntiad wyneb yn wyneb rhwng 19 Mawrth 2018 a 5 Mehefin 2018, gyda dau apwyntiad ffôn yn cael eu cynnal wedi hynny rhwng 5 Mehefin 2018 a 11 Awst 2018. Roedd y cyswllt diwethaf ar 11 Awst 2018 pan ddywedodd y fam ei bod wedi dychwelyd i Gymru.

Gwasanaethau Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Fe wnaeth y fam hunanatgyfeirio ar 23 Awst 2018 ar ôl 32 wythnos o fod yn feichiog, roedd ei gofal a'i thriniaeth yn cael eu harwain gan feddyg ymgynghorol, a chychwynnwyd yr esgor ar 37 wythnos o feichiogrwydd, gan nad oedd y babi'n tyfu'n ddigonol. Roedd yn yr ysbyty am yr wythnos gyntaf ar ôl yr enedigaeth a rhagnodwyd gwrthfotigau iddo pan gafodd ei ryddhau o'r ysbyty yn saith niwrnod oed, ac i ofal y bydwragedd cymunedol.

Nododd y fydwaig gymunedol bod gan y fam hwyliau isel ar ddiwrnodau wyth a naw, a dywedodd ar ddiwrnod deg bod yr hwyliau isel yn symud tuag at iselder; sgôr iselder ôl-enedigol Caeredin⁷ oedd 23. Mae sgôr sy'n uwch nag 13 yn dynodi risg uchel neu debygolrwydd o salwch iselder ac mae angen asesiad clinigol a diagnosis pellach. Gwnaethpwyd apwyntiad i weld y meddyg teulu ar gyfer y diwrnod canlynol, a gwnaeth y meddyg teulu atgyfeiriad i'r Tîm Iechyd Meddwl i Oedolion.

Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dechreuodd y gwasanaeth ymwelwyr iechyd generig pan oedd y babi yn ddeunaw diwrnod oed (cyfeirir ato fel cyswllt pythefnos oed). Roedd trosglwyddiad llafar gan y fydwaig i'r ymwelydd iechyd a hysbyswyd yr ymwelydd iechyd am hanes y fam o orbryder cyn iddi fod yn feichiog a'i

⁶ [Gweithdrefn ar gyfer Rheoli Achosion lle mae Amheuaeth o Anafiadau i Blant nad ydynt yn Gallu Symud o Gwmpas Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)

⁷ [Asesiad | Diagnosis | Iselder – cynenedigol ac ôl-enedigol | Crynodebau Gwybodaeth Glinigol | NICE](#)

bod wedi dechrau cymryd sertralin (gwrth-iselydd). Gwelwyd y babi yn noeth pan oedd yn ddwy a thair wythnos oed.

Yn ystod y cyswllt pan oedd y babi yn dair wythnos oed, roedd yr ymwelydd iechyd wedi cofnodi bod y fam yn teimlo'n sâl, a chafodd y feddyginiaeth (gwrth-iselyddion) ei newid ar yr un diwrnod yn ei hapwyntiad gyda'r meddyg teulu. Chwe diwrnod ar hugain oedd y babi ar yr ymweliad hwn. Ni chafodd ei bwysu ar ôl tair wythnos gan fod y bydwagedd wedi ei bwysu ychydig o ddyddiau cyn ymweliad yr ymwelydd iechyd.

Cofnododd yr ymwelydd iechyd mai'r fam-gu ar ochr y fam oedd yn gofalu am y babi yn bennaf yn ystod yr ymweliad pedair wythnos oed gan fod y fam yn sâl. Gwnaeth yr ymwelydd iechyd bwysu'r babi yn ystod yr ymweliad hwn ac roedd yn gadarnhaol ynghylch y cyswllt rhwng y babi a'i fam.

Yn ystod y cyswllt pan oedd y babi yn bum wythnos oed (deugain diwrnod oed), gwelwyd y babi gan y neonatolegydd ymgynghorol yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford. Cofnododd y neonatolegydd ymgynghorol fod y babi yn ymddangos yn dda ac yn gwneud cynnydd ac nad oedd unrhyw bryderon. Yn apwyntiad yr ymwelydd iechyd, ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, cofnododd yr ymwelydd iechyd grafiad o dan y ffroen dde.

Hyd yn hyn, nid oedd yr ymwelydd iechyd wedi adrodd am unrhyw farciau eraill ar y babi, ac nid adroddodd ychwaith ei fod yn ofidus. Cofnododd yr ymwelydd iechyd fod y babi yn effro ac yn eisiau cael ei fwydo, a bod rhyngweithio da rhwng y fam a'r babi.

Gwrthododd y rhieni i'r babi gael ei bwysu ar yr ymweliad hwn gan fod hyn wedi'i wneud pan aeth i'r ysbyty. Dywedodd y fam ei bod yn teimlo'n well hefyd, a bod y feddyginiaeth yn parhau i fod yn addas iddi. Trefnwyd yr apwyntiad nesaf gyda'r ymwelydd iechyd am ddeuddeg diwrnod yn ddiweddarach, gydag apwyntiad y fam gyda'r seiciatrydd wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol.

Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford

Derbyniwyd y babi i'r ysbyty mewn ambiwlans ar 9 Rhagfyr 2018 gyda bronciolitis. Roedd yn chwe wythnos oed ac, o'i archwilio, canfuwyd bod ei goes a'i ben wedi chwyddo. Cafodd archwiliad meddygol amddiffyn plant ei wneud ar 10 Rhagfyr 2018, ac roedd yr adroddiad arolwg sgerbydol dros dro a luniwyd yn rhestru anafiadau sylweddol a lluosog.

Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol Powys (Iechyd Meddwl ac Anableddau)

Cwblhawyd asesiad iechyd meddwl mewn perthynas â'r fam ar 23 Tachwedd 2018. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn amlygu hwyliau isel a thueddiad i gollu ei thymer yn hawdd (ond mae hi wedi teimlo fel hyn ers pan oedd yn blentyn yn ei arddegau). Nid oedd unrhyw lledrithiau, rhithweledigaethau na meddyliau anarferol eraill, dim arwyddion o hunanesgeulustod, a dim meddyliau cyfredol yn ymwneud â niweidio ei hun nac eraill.

Canlyniad yr asesiad oedd i'r fam gael ei hatgyfeirio ar gyfer cwnsela ac apwyntiad claf allanol gyda seiciatrydd ymgynghorol. Yn ogystal, penderfynwyd y dylai'r fam barhau â'i meddyginiaeth ac ymweld â'i meddyg teulu os oedd angen.

Cysylltiad y rhieni yn yr adolygiad

Mae barn y teulu'n elfen bwysig o'r adolygiad, er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddysgu o'u profiad o'u hymglymiad drwy gydol y cyfnod o amser ac i gasglu unrhyw wersi i lywio ymarfer yn y dyfodol. Cysylltwyd â'r ddau riant biolegol i gael eu barn. Bu hyn yn aflwyddiannus. Fodd

bynag, cyfarfu'r adolygydd a chadeirydd y panel â mam-gu ar ochr y fam cyn y digwyddiad dysgu. Bu hyn yn llwyddiannus o ran cael barn fanwl gan un o brif ofalwyr y babi am y cyfnod y bu yng nghartref y teulu. Felly, dylid nodi, yn yr adran nesaf, fod cynrychiolaeth o ran barn y teulu yn gyfyngedig i farn y fam-gu ar ochr y fam yn unig.

Myfyrdodau a dadansoddiad y panel o'r ymwneud amlasiantaethol a'r ymyrraeth â'r teulu

Mae myfyrdodau a dadansoddiad y panel o ymyrraeth asiantaethau â'r teulu wedi dod i'r casgliad y gallai asesiad mwy cadarn o sefyllfa'r teulu cyn yr enedigaeth fod wedi nodi'r angen am gynnig gofal a chymorth ffurfiol ar ôl rhoi genedigaeth. Er y cydnabyddir y cofnodir y mynychodd y rhieni apwyntiadau cyn geni ar y cyfan, ac ni nodwyd unrhyw bryderon ynghylch eu gofal a'u rhyngweithio â'r babi ar ôl ei eni, gallai triongliad gan weithwyr proffesiynol o'r holl wybodaeth oedd ar gael, gan ystyried hanes cymhleth y rhieni (gan gynnwys eu plentyndod anodd a chymhleth) a hanes y fam o ymddygiad pryderus ac arddangos anghenion iechyd meddwl, fod wedi nodi'r angen am lefel uwch o gymorth ar ôl genedigaeth. Gallai hyn fod wedi cynnwys, er enghraifft, y cynnig o lwybr mamolaeth ac asesiad cyn-enedigaeth mwy cynhwysfawr, a allai fod wedi rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o safbwyntiau a barn y fam-gu am eu gallu i ofalu am fabi newydd-anedig, a gwell dealltwriaeth o hanes cymhleth y tad a pha rôl y gall ei chwarae wrth ofalu am ei blentyn.

Dysgu ymarfer a sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.

Nodwyd y dau bwynt dysgu canlynol o'r llinell amser, dadansoddiad yr asiantaethau a'r digwyddiad dysgu:

Pwynt dysgu 1 – Y defnydd o chwilfrydedd proffesiynol gan ymarferwyr

Barn y teulu:

Dyweddodd y fam-gu ar ochr y fam ei bod yn ymddangos bod asiantaethau'n canolbwyntio ar y materion a oedd yn amlygu eu hunain ar y pryd ac y gallent fod wedi cael mwy o fudd, neu o leiaf eu hysbysu'n well, trwy wrando ar ei barn, gan ei bod yn ymwneud yn sylweddol â gofalu am y babi.

Barn ymarferwyr:

Cytunodd yr holl asiantaethau, er ei fod yn amlwg mewn rhai achosion, y gallai chwilfrydedd proffesiynol fod wedi bod yn well mewn rhai agweddau ar ymwneud yr asiantaethau â'r teulu. Byddai cwblhau asesiad cyn yr enedigaeth wedi rhoi cyfleoedd i gael rhagor o wybodaeth am ddeinameg a hanes y teulu ac y byddai felly wedi arwain at ddarparu gofal, atgyfeiriadau a chymorth priodol.

Dysgu:

Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgîl cyfathrebu i archwilio a deall yr hyn sy'n digwydd o fewn teulu, yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau neu dderbyn pethau ar eu golwg. Bydd gweithwyr proffesiynol chwilfrydig yn treulio amser yn ymgysylltu â theuluoedd ar ymweliadau, yn agored i'r annisgwyl, ac yn ymgorffori gwybodaeth nad yw'n cefnogi rhagdybiaethau cychwynnol yn eu hasesiad o sut beth yw bywyd i'r plentyn neu'r oedolyn yn y teulu. Dylai pob

asiantaeth sicrhau bod chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan eu hymarferwyr yn eu holl waith gyda theuluoedd.

Pwynt dysgu 2 – Pwysigrwydd hanes teuluol o ran atgyfeiriadau, asesiadau ac ymyriadau, gan gyfeirio'n benodol at rôl y tad

Barn y teulu:

Dywedodd y fam-gu ar ochr y fam yr oedd yn ymddangos fel petai ymarferwyr wedi diystyru rôl a chefnidir y tad biolegol, a'i arwyddocâd posibl yn y gofal a'r ymyriadau a ddarparwyd.

Barn ymarferwyr:

Cyfeiriodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys at bwysigrwydd rhoi ystyriaeth ddyledus i'r tad, os oedd yn bresennol, fel aelod o'r teulu ac nid ar wahân i'r broses asesu. Er ei fod yn bresennol ar gyfer apwyntiadau'r ymwelydd iechyd, gellid bod wedi rhoi mwy o sylw i'r tad a'i rôl yn y teulu a chyda'r babi a dadansoddi hyn yn fwy.

Dysgu:

Dylid cynnig asesiad cyfannol o angen i bob teulu fel yr amlinellir yn Rhaglen Plant Iach Cymru.⁸ Mae'r rhaglen yn tanategu'r cysyniad o gyffredinolïaeth gynyddol a'i nod yw nodi set ofynnol o ymyriadau allweddol i bob teulu â phlant cyn oed ysgol, waeth beth fo'r angen. I rai teuluoedd, bydd angen cynyddu ymyrraeth i hwyluso cymorth mwy dwys. Mae hyn yn cynnwys asesiad proffesiynol o wytnwch teulu sydd nid yn unig yn edrych ar ddatblygiad y plentyn ond yn ystyried y lleoliad cyfan a dylanwadau ehangach megis ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn a'r teulu i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.

Arfer effeithiol

Mae sawl enghraifft o arfer effeithiol gan asiantaethau ac ymarferwyr ar gyfer yr adolygiad hwn:

Cyngor Sir Powys – Gwasanaethau Plant

Mewn perthynas â'r babi, roedd prosesau amddiffyn plant yn cael eu dilyn yn briodol, ac yn digwydd o fewn yr amserlen. Yn ogystal, cychwynnodd chwiliadau am leoliadau ar unwaith fel eu bod yn dod o hyd iddynt cyn rhyddhau, a chafwyd cyfnod pontio llyfn.

Cyngor Sir Powys – Iechyd Meddwl ac Anableddau

Cafodd yr atgyfeiriad gan y meddyg teulu ei frysbennu gan y gweithiwr dyletswydd ar yr un diwrnod. Cynhaliwyd trafodaeth bellach yn y cyfarfod 'hyb' amlasiantaeth a neilltuwyd asesiad gyda gweithiwr dyletswydd.

Atgyfeiriwyd y fam ar gyfer cwnsela sylfaenol a chymorth parhaus trwy gyfrwng apwyntiadau seiciatreg cleifion allanol. Gwnaed hyn i helpu i gefnogi'r fam, ac roedd yn barod i dderbyn yr atgyfeiriad hwn. Rhannwyd asesiadau cychwynnol gyda Gwasanaethau Plant ac Uned Diogelu

⁸ Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru (lyw.cymru)

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

(Plant) Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Dylid nodi bod yr ymyriadau hyn wedi digwydd ar ôl i'r anafiadau gael eu hachosi.

Heddlu Dyfed–Powys

Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gywir ac yn brydlon yn fewnol ac yn allanol. Cymerwyd camau gweithredu a diogelu prydlon ar ôl derbyn gwybodaeth am anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol gan asiantaethau partner.

Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex

Gwnaethant nodi heriau iechyd corfforol a meddyliol y claf. Gwnaethant gydnabod a thrin dirywiad yn iechyd meddwl y fam.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae cyswllt dros y ffôn yn cael ei gofnodi rhwng tîm bydwreigiaeth Powys a tîm bydwreigiaeth Surrey a Sussex ar ôl i'r fam symud i Gymru ar ôl 32 wythnos o feichiogrwydd, er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol.

Fe wnaeth staff yr ysbyty alluogi'r tad i aros i gefnogi'r fam tra oedd angen i'r babi aros yn yr ysbyty. Rhoddwyd yr holl gyngor o ran ofalu am y babi newydd-anedig cyn rhyddhau o'r ysbyty ac yn ystod ymweliad yr ymwelydd iechyd amser geni'r babi. Roedd hyn yn cynnwys cysgu'n ddiogel a pheryglon ysmegu o amgylch y babi a chynghor yn erbyn rhannu gwelyau.

Cynigiwyd cymorth priodol i'r fam wrth i arwyddion ei hwyliau isel ddod i'r amlwg. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau gan y fydwraig a chynllun i gefnogi'r teulu, cwblhau Graddfa Iselder Ôl-enedigol Caeredin, ceisio cyngor gan uwch-fydwraig yn dilyn y sgôr uchel, ac atgyfeirio at y meddyg teulu am feddyginiaeth a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i gael asesiad.

Y digwyddiad dysgu

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu amlasiantaeth ym mis Tachwedd 2022, ac roedd llawer o ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-reolwyr yr holl asiantaethau perthnasol a oedd yn ymwneud â'r teulu yn bresennol. Er nad oedd rhai yn ymwneud yn uniongyrchol, roeddent yn gallu cyfrannu drwy fyfyrion ar y cwestiynau allweddol canlynol:

- Beth aeth yn dda, pa arferion da ydych chi wedi'u nodi?
- Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda, a oes meysydd sy'n peri pryder i chi?
- Beth ydych chi'n teimlo y gallai asiantaethau fod wedi'i wneud yn wahanol?
- Pa gamau ydych chi'n teimlo y mae angen i asiantaethau eu cymryd wrth symud ymlaen, i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn llywio arfer yn y dyfodol?

Hwyluswyd y digwyddiad dysgu gan yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel. Fel y disgrifiwyd uchod, ystyriodd y digwyddiad dysgu linell amser y cysylltiadau a'r digwyddiadau ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Mawrth 2018 a 24 Rhagfyr 2018 yn gynwysedig. Roedd barn y teulu hefyd wedi'i phlethu i'r trafodaethau.



Gwella systemau ac ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwelliant:

Argymhellion:

1. Dylai'r bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono sicrhau bod chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei gymhwyso'n gyson ac yn effeithiol gan bob ymarferydd ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn eu hymarfer wrth weithio gyda theuluoedd.
2. Dylai'r bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono sicrhau bod atgyfeiriadau, asesiadau ac ymyriadau diogelu yn cynnwys, yn cyfeirio at, ac yn adlewyrchu'r darlun teuluol cyflawn, gan gynnwys y tad bob amser.

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

Datganiad gan yr adolygydd(wyr)			
Adolygydd 1	Simon Watts	Adolygydd 2 <i>(fel y bo'n briodol)</i>	Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>	
Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:		Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig. Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig. Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl. 	
Adolygydd 1 <i>(Llofnod)</i>		Adolygydd 2	Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn..... <i>(Llofnod)</i>
Enw Simon Watts..... <i>(Enw mewn llythrennau bras)</i>		Enw Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn..... <i>(Enw mewn llythrennau bras)</i>	
Dyddiad 5 Medi 2024		Dyddiad Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn	
Cadeirydd y Panel Adolygu <i>(Llofnod)</i>			
Enw Jayne Butler <i>(Enw mewn llythrennau bras)</i>			
Dyddiad	5 Medi 2024		

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

Proses Adolygu Ymarfer Plant/Oedolion

I'w gynnwys yma yn gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fynychodd*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi'u hysbysu, gofynnwyd am eu barn, a chafodd hon ei chynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu, a darparwyd adborth iddynt*

- Trafodwyd yr atgyfeiriad ar gyfer ystyried cynnal Adolygiad Ymarfer Plant yng Ngrŵp Gweithredu Lleol Powys. Cytunwyd i symud yr atgyfeiriad hwn ymlaen i Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant CYSUR i ystyried Adolygiad Ymarfer Plant.
- Trafodwyd yr atgyfeiriad yn briodol yn Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant CYSUR. Daethpwyd i gytundeb bod y meini prawf yn cael eu bodloni ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, a argymhellwyd wedyn i gadeirydd CYSUR.
- Cadarnhawyd yr argymhelliad hwn gan gadeirydd CYSUR i gynnal Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.
- Ffurfiwyd Panel Adolygu Ymarfer Plant amlasiantaeth. Gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel:
 - 1) Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex: bydwreigiaeth
 - 2) Heddlu Dyfed–Powys
 - 3) Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, mamolaeth, newyddenedigol, pediatreg, meddyg teulu, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, meddyg damweiniau ac achosion brys
 - 4) Cyngor Sir Powys: gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac anableddau
- Cytunwyd ar aelodaeth y panel, y cylch gorchwyl a'r cyfnod amser y bydd yr adolygiad yn ei gwmpasu.
- Cwblhawyd a chytunwyd ar linell amser a dadansoddiad cyfun gan yr asiantaethau.
- Cysylltwyd â'r teulu at ddibenion yr adolygiad, a chafwyd eu barn, a'i chynrychiolwyd, yn y digwyddiad dysgu. Yna rhoddwyd adborth iddynt.
- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu. Y gwasanaethau oedd yn bresennol:
 1. Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex: Bydwreigiaeth
 2. Heddlu Dyfed–Powys
 3. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, mamolaeth, newyddenedigol, pediatreg, meddyg teulu, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, meddyg damweiniau ac achosion brys
 4. Cyngor Sir Powys: gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac anableddau

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth:
(dyddiad)

.....

Llythyr cydnabod wedi'i anfon at gadeirydd y bwrdd:
.....(dyddiad)

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

Dosbarthwyd i'r arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol:
.....(dyddiad)

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
Arolygiaeth Gofal Cymru			
Estyn			
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru			
Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi			
Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi			

Atodiad A – Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 1 2019 (Powys)

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 1/2019 (Powys)



- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – Holly Gordon
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Ditectif Uwch-arolygydd Jayne Butler
- **Adolygydd (Adolygwyr) Annibynnol** – Simon Watts

Tasgau craidd:

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chymau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chymau gweithredu er budd pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol cynnydd
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd annibynnol i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau estynedig
- Cytuno ar amserlen
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd eisoes
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol ynghylch yr adolygwyr annibynnol ac aelodaeth y panel
- Cynhyrchu llinell amser unol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu
- Cynllunio gyda'r adolygydd annibynnol ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai sy'n mynychu, eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a threfniadau ar gyfer adborth
- Cynllunio gyda'r adolygydd y trefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu, lle bo modd, cyn y digwyddiad dysgu

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant i'w hystyried a chytuno arnynt
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi
- Bydd aelodau'r Panel Adolygu yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd)

Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer:

- Cytuno a chymeradwyo y cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer adolygiad
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd diogelu i'w hystyried a chytuno arnynt
- Monitro cynlluniau gweithredu'r Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y Bwrdd Diogelu

Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR

- Bydd yr Uned Fusnes, ar ran y bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru am gynnal Adolygiad Ymarfer Plant
- Bydd yn cadw at amserlenni ar gyfer ei gwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol
- Cael yr adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant terfynol a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu gan yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu
- Cynllunio i'w gyhoeddi ar wefan bwrdd CYSUR am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol
- Bydd cadeirydd bwrdd CYSUR yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddi-ddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau

Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth wrth bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir, fel a ganlyn:
 - Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant / Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014
 - Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod

CYSUR 1 2019 Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

- yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig
- Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'
 - Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at Reolwr Busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu